| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Tachwedd 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus**<br>**Angela Loftus (Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd)** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Karsten Bruβk (Swyddog Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd)** |
| **Teitl:** | **Newid geiriad pedwar Canllaw Cynllunio Atodol (CCA)** |

---

## 1. Am beth mae'r penderfyniad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno mân newidiadau arfaethedig i bedwar Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) a ddefnyddir ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio i adlewyrchu polisïau a chyfeiriadau perthnasol Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021 (CDLl).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I dderbyn cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu geiriad arfaethedig newydd y Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol:

1) Safonau Gofod Preswyl (CCA rhif 7);
2) Blaen Siopau (CCA rhif 12);
3) Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas (CCA rhif 26); a
4) Gorllewin y Rhyl (CCA rhif 27).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r mân newidiadau i eiriad Safonau Gofod Preswyl (CCA rhif 7), fel y nodir yn Atodiad 1; Blaen Siopau (CCA rhif 12) fel y nodir yn Atodiad 2; Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a'r Gamlas (CCA rhif 26), fel y nodir yn Atodiad 3; a Gorllewin y Rhyl (CCA rhif 27), fel y nodir yn Atodiad 4.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1. Pan fabwysiadwyd y CDLl ar 4 Mehefin 2013, penderfynodd y Cyngor i ddwyn ymlaen pob CCA a fabwysiadwyd er mwyn eu defnyddio fel canllawiau cynllunio mewn perthynas â'r CDLl newydd. Cytunwyd hefyd y byddai'r holl CCAau hyn yn cael eu hadolygu cyn gynted ag y bo'n ymarferol i sicrhau eu

bod yn cydymffurfio â pholisïau’r CDLl a chyda newidiadau polisïau/deddfwriaethau eraill.

4.2. Mae pob CCA a fabwysiadwyd wedi eu sgrinio er mwyn penderfynu ar lefel y newidiadau angenrheidiol. Mae’r 4 CCA i’w gweld yn Atodiadau 1 i 4. Dim ond mân newidiadau ffeithiol sydd angen eu gwneud ac felly nid oes angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Ar ôl cytuno ar y mân newidiadau, bydd y CCAau yn cael eu diweddaru a’u rhoi ar wefan y Cyngor.

4.3. Safonau Gofod Preswyl (CCA rhif 7): Mabwysiadwyd y ddogfen ym mis Ebrill 2011, ac mae angen gwneud mân newidiadau iddi i sicrhau ei bod yn cyfeirio at bolisi’r CDLl. Mae hefyd yn adlewyrchu newid enw Llywodraeth Cynulliad Cymru i Lywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw newid arfaethedig i'r safonau gofod preswyl eu hunain.

4.4. Blaen Siopau (CCA rhif 12): Mae’r diwygiadau arfaethedig i'r CCA yn rhai ffeithiol yn bennaf a'u bwriad yw darparu eglurhad a disgrifiad pellach o nodweddion blaen siop. Mae’r newidiadau eraill yn cynnwys mân aralleirio, diweddaru cyfeiriadau i ddogfennau eraill a newidiadau i derminoleg (e.e. CDLl yn lle’r Cynllun Datblygu Unedol (CDU)). Bydd y fersiwn terfynol o’r CCA hefyd yn cynnwys darluniau / ffotograffau fel y bo'n briodol.

4.5. Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr Pontcysyllte a’r Gamlas (CCA rhif 26): Mae mân newidiadau wedi eu gwneud i CCA Safle Treftadaeth y Byd i sicrhau bod y ddogfen yn cyfeirio at bolisïau CDLl yn lle polisïau’r CDU ac yn adlewyrchu'r ffaith bod estyniad yr AHNE bellach wedi ei gadarnhau. Mae’r cyfeiriadau at Bolisi Cynllunio Cymru wedi cael eu diweddaru fel eu bod yn cyfeirio at y fersiwn mwyaf diweddar a gyhoeddwyd yn 2012.

4.6. Gorllewin y Rhyl (CCA rhif 27): Mae mân newidiadau wedi eu gwneud i CCA Gorllewin y Rhyl i sicrhau bod y ddogfen yn cyfeirio at bolisïau CDLl yn lle polisïau’r CDU. Mae’r cynnwys hefyd wedi ei newid i nodi penodau perthnasol o Bolisi Cynllunio Cymru er mwyn ei gwneud hi’n haws i ddarllenwyr wybod pa adrannau o'r polisi cynllunio cenedlaethol sy’n berthnasol.

4.7. Mae’r holl newidiadau arfaethedig i'r pedwar CCA wedi eu hamlygu yn yr Atodiadau.

Rhestr o Atodiadau:

- Atodiad 1: Safonau Gofod Preswyl (CCA rhif 7);
- Atodiad 2: Blaen Siopau (CCA rhif 12);
- Atodiad 3: Safle Treftadaeth y Byd Traphont Pontcysyllte a’r Gamlas (CCA rhif 26), ac
- Atodiad 4: Gorllewin y Rhyl (CCA rhif 27)

4.9 Trafodwyd yr adroddiad sy'n nodi'r newidiadau arfaethedig yng Nghyfarfod Grŵp Llywio’r CDLl ar 22 Hydref ac roedd yr aelodau’n cefnogi’r mân newidiadau.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. *Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17.* Bydd y CCAau yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y flaenoriaeth gorfforaethol arfaethedig canlynol:

- Moderneiddio'r Cyngor i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol

## 6 Faint fydd hyn yn costio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni ragwelir unrhyw gost ychwanegol ynghlwm wrth gytuno â'r mân newidiadau hyn.

## 7 Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Ni ystyrir fod Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn angenrheidiol gogyfer â'r penderfyniad hwn. Mae'r CCAau yn rhoi arweiniad pellach ar bolisïau'r CDLl; gwnaethpwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y CDLl ym mis Mai 2011.

## 8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Trafodwyd yr adroddiad yng nghyfarfod Grŵp Llywio'r CDLl ar 22 Hydref.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r adroddiad yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo mân newidiadau i eiriad dogfennau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg.

## 10 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Yn absenoldeb canllawiau cyfredol mae perygl na fyddai'r Cyngor yn gallu darparu cyngor cynllunio cyfredol a chywir i'w gwsmeriaid.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).